LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBL IFANC

ENW: Guto Morgan

BRO: Ystrad Meurig

ARLUNYDD YN EI GYNEFIN

Mae Guto Morgan, arlunydd o Ystrad Meurig, wedi dychwelyd i'w gynefin ar ôl cyfnod yn astudio ac yn gweithio yn Llundain a Glasgow. Mae bellach yn gweithio yng Ngheredigion wrth ddatblygu ei yrfa fel artist.

"Roedd dychwelyd adref yn rhywbeth roeddwn i'n ei ddymuno, ond mae'n anodd cael gwaith yn y sector celfyddydau yng nghefn gwlad," meddai Guto. "Mae'r gefnogaeth gan Llwyddo'n Lleol wedi bod yn allweddol i fy ngalluogi i wneud hyn."

Trwy ei waith yn y Llyfrgell Genedlaethol, mae Guto'n gallu parhau â'i yrfa greadigol tra'n cyfrannu at hyrwyddo celf yng Nghymru.

SUT MAE LLWYDDO'N LLEOL WEDI HELPU?

Cafodd Guto gyfle i weithio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn wreiddiol fel Swyddog Aelodaeth Cyfeillion y Llyfrgell, rôl a oedd yn cael ei chefnogi gan Llwyddo'n Lleol.

"Daeth y swydd honno fel hwb mawr i mi. Roedd yn ffordd o gael incwm sefydlog tra'n parhau i ddatblygu fy ngyrfa fel arlunydd."

Wedi pedwar mis yn y swydd honno, daeth cyfle iddo symud i rôl fwy addas i'w gefndir a "swydd berffaith" i Guto, sef Cydlynydd Cymunedol ar gyfer arddangosfa 'Dim Celf Cymreig' yn Oriel Gregynog.

"Rwy'n helpu i ddod â'r arddangosfa i gynulleidfaoedd ehangach, yn enwedig grwpiau nad ydynt bob amser yn cael cyfleoedd i fwynhau celf, fel pobl ag anableddau a gofalwyr."

BETH NESAF?

Mae Guto'n parhau â'i waith paentio ochr yn ochr â'i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.

"Mae fy ngwaith yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan fy nghynefin - y tir, y caeau, y coed a'r gwreiddiau. Mae'r cynfas yn lle i fyfyrio ac archwilio fy nghysylltiad â'r tir."

Yn y dyfodol, mae'n gobeithio parhau i ddatblygu fel arlunydd ac ehangu ei waith i arddangosfeydd newydd.

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government